CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**04.05.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; RY; EY; JOJ;TAJ; AR;RJ<br>**Ymddiheuriadau:** DP;IW; LLMH;EO;GW<br>**Yn mynychu:** Cyng LLio A Owen; SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW ddiddordeb yn eitem 5 Materion Cyllid gan fod bil Williams Bros a chyflog y Clerc i'w dalu. |
| **3** | **Cofnodion 06.04.23**<br>***a)*** **Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 6.4.23 fel rhai cywir (RJ/DAW)** ***Cyf at neb yna***<br>**b) Materion yn Codi**<br>**Stafell Snwcer -** Adroddodd y Cadeirydd am gyfarfod byr gynhaliwyd (TAJ/JAJ/DAW/LLMH) i edrych trwy unrhyw waith papur perthnasol am sefydlu'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd. Cytunodd LLMH i drefnu cyfarfod rhwng swyddogion perthnasol CSYM/ Llywodraethwyr a CC Llan i drafod ymhellach. Nododd y Clerc bod Cyng. Llio Angharad hefyd yn ceisio trefnu cyfarfod tebyg ar gais y Llywodraethwyr. Argymhellwyd y canlynol:-<br>• holi'r gymuned am yr awydd i ail-sefydlu'r Clwb Snwcer gan ystyried creu Uned 1 yn adnodd i'w cartrefu.<br>• ceisio am yr arian sy'n waddol o gronfa'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd.<br><br>Yn dilyn trafodaethau pellach cytunwyd yn unfrydol i weithredu'r ddau argymhelliad uchod (AR/RJ). |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • **Materion Priffyrdd –** cyfeirwyd at ymweliad safle a drefnwyd gan LLMH a chytunodd DAW; JAJ; EY a RJ i fynychu.<br><br>• **Cloc y Pentref -** dim diweddariad, Clerc i wirio<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 04.05.23 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Grŵp LlanNi** - adroddodd y Clerc am sefyllfa Grŵp LlanNi. Mae CC Llan wedi rhoi cymorth eisoes i LlanNi trwy wneud cais am grant fechan o £1.5k i dalu costau cychwynnol cyfreithiol. Mae'r Loteri Fawr yn argymell felly i CC Llan barhau i wneud cais am y grant fawr - £140K. Byddai hyn yn hwyluso'r broses ac yn osgoi oedi neu efallai beryglu'r holl brosiect. Golyga hyn i CC Llan gael les hefo Grŵp LlanNI i redeg y prosiect. Bydd angen cymorth Rhys Jones i weithredu unrhyw gytundeb rhwng y ddau barti. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd JAJ bod CC Llan yn cynnig y cymorth ac fe eiliwyd gan EY - cytunwyd yn unfrydol.<br><br>• **Safle'r Stesion** - cais i law i adeiladu grisiau ochr yr Ardd Gymunedol i hwyluso mynediad i'r Caffi. Cytunwyd i'r Clerc holi Liam Jones am amcan bris.<br>Peiriant Coffi - cyflwynodd y Clerc amcan bris peiriant coffi newydd i'r Caffi. Cytunwyd i ohirio unrhyw benderfyniad ar archebu peiriant hyd nes bydd Rhys Jones a Carolyn wedi cyfarfod i drafod ei chytundeb.<br><br>• **Adnewyddu Polisi Yswiriant 2023-24** - cylchredwyd manylion adnewyddu polisi yswiriant CC Llan eisoes. Holodd AR am yswirio staff a nododd nad oedd y mynwentydd ar y rhestr. Cytunwyd i'r Clerc holi ymhellach ac addasu fel bo'r angen. Cymeradwywyd i'w dalu |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ebrill** – dim<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc Mai & 1 taliad ZOOM — 506.28<br>Mencap – mygiau Coroni'r Brenin Siarl 167 @ £2.50 yr un — 417.50<br>Moore Cool – trwsio cwpwrdd diodydd oer y Caffi — 141.70<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £19157.27<br>Cyfrif Cadw: £ 1442.77<br><br>**Cyfrifon 2021-22 –** cyflwynwyd adborth Archwilio Cymru ar y cyfrifon am 2021-22. Nododd y Clerc bod hysbysiad o archwiliad cywir wedi ei osod ar y Wefan ac yn yr hysbysfwrdd yn unol a'r gofynion statudol. Derbyniwyd y cynnwys yn unfrydol (TAJ/AR) |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Cyfrifon 2022-23 –** cyflwynwyd cyfrifon terfynol 2022-23 er gwybodaeth. Bydd yr holl waith papur perthnasol yn cael ei gyflwyno i'r Archwiliwr Mewnol o fewn y dyddiau nesaf.<br><br>**Taliadau Rhoddion Blynyddol**<br>Eglurodd y Clerc bod dau gais arall wedi eu derbyn cyn diwedd Mawrth 2023 ond heb eu trafod yng nghyfarfod mis Ebrill sef<br>• Mudiad yr Urdd ym Mon – cynnigiodd JAJ ac fe eilwyd gan RY - £50<br>• Môn FM – cynnigiodd JAJ ac fe eilwyd gan RJ - £25 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>**Penderfyniadau**<br>Cymeradwywyd y ddau gais - Tyddyn Goeden a Bryn Garth Llannerchymedd<br>. |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir**<br>Yn anffodus bu rhaid i'r Cyng Llio A adael y cyfarfod rhithiol ar fyr rybudd ond fe gyfeiriodd y Clerc at ebost a gylchredwyd eisoes yn manylu gweithgareddau cyfredol CSYM |
| **8** | **Materion Safleoedd**<br>**Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** dim<br>**Unedau Tan y Foel –** dim<br><br>Cytunwyd i ychwanegu'r ardaloedd yma at restr sefydlog yr eitem hon – Clwb Peldroed; Lawnt Fowlio; Safle Stesion |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br>• **Llythyr gan Eglwys y Santes Fair –** yn dilyn trafodaeth cynnigiodd JAJ ac fe eiliodd AR i gyfrannu £500, cytunwyd yn unfrydol<br>• **Dyddiadau Hyfforddiant UNLLAIS-** fe gylchredwyd eioes ar ebost ac fe annogodd y Cadeirydd i'r aelodau i fynychu |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com